PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**E-lawlyfr 1**

**SYNIADAU HANFODOL I DDEALL SYSTEMAU GWLEIDYDDOL**

Uned 2: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

BYW A CHYFRANOGI MEWN DEMOCRATIAETH

**Adnodd 7**

# *Mudiadau Cymdeithasol 1: Nodweddion a Mathau*

## Llawlyfr Gwaith

International Politics — Gwleidyddiaeth Ryngwladol

cbac wjec

# LLAWLYFR GWAITH

## CWESTIWN 1

Eglurwch gan ddefnyddio esiamplau beth yw ystyr gweithredu ar y cyd (*collective action*)?

## CWESTIWN 2

Eglurwch gan ddefnyddio esiamplau beth yw ystyr y term ‘protest’?

## CWESTIWN 3

Amlinellwch rhai o’r ffurfiau protest sydd ar gael i fudiadau cymdeithasol.

**CWESTIWN 4**

Dadansoddwch pam fod protestio wedi dod yn cymaint rhan o wleidyddiaeth fodern yn y Gorllewin.

**CWESTIWN 5**

Beth yw nodau mudiadau cymdeithasol?

**CWESTIWN 6**

Eglurwch gan ddefnyddio esiamplau beth yw ystyr y term dulliau tor-cyfraith?

## CWESTIWN 7

Darllenwch y wybodaeth yn y tabl isod sy'n amlinellu nodweddion mudiadau cymdeithasol a charfanau pwyso.

1: Rhannwch nhw yn bwyntiau sy'n fwy priodol i un ai ddisgrifio mudiadau cymdeithasol neu garfanau pwyso.

2: Edrychwch ar y pwyntiau hyn a datblygu strwythur ar gyfer traethawd sy'n gofyn am drafod y prif wahaniaethau rhwng mudiadau cymdeithasol a charfanau pwyso.

3: Casglwch enghreifftiau ellid eu defnyddio er mwyn cadarnhau'r pwyntiau.

**Tabl 1. Nodweddion mudiadau cymdeithasol a charfanau pwyso**

| | |
|---|---|
| Llai biwrocrataidd a llai hierarchaidd | Denu cefnogaeth fwy cyffredinol ac eang ar draws grwpiau dosbarth, hil, neu ddiwylliant |
| Gweithredu arwahân i'r strwythurau gwleidyddol confensiynol pleidiol | Pwysleisio chwilio am fannau mynediad, gan amlaf yn cynnwys dulliau gwleidyddol mwy sefydliadol |
| Pwyslais ar ddwyn perswâd ar lywodraeth neu sefydliadau | Cefnogaeth gyfyngedig gan grŵp penodol o bobl maent yn ei gynrychioli |
| Trefniadau mewnol yn gymharol lac | Amcanion radical ac eang, yn aml o amgylch thema gyffredinol |
| Pwysleisio newid y farn gyhoeddus | Defnydd o ystod o dactegau gan gynnwys elfennau o brotest |
| Ffocws ar faterion ac ymgyrchoedd mwy penodol | Amcanion radical a pharodrwydd i ddefnyddio tactegau gwrthwynebus |

## CWESTIWN 8

Aseswch beth yw'r prif debygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng carfanau pwyso a mudiadau cymdeithasol.